Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 24.03.2021

## Cronfa Adferiad Diwylliannol 2021-22: Gwiriwr Cymhwysedd ar agor

Mae Llywodraeth Cymru yn lansio cam pellach o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol. Bydd cymorth ar gael i sefydliadau fel theatrau, lleoliadau cerddoriaeth, mannau recordio ac ymarfer, atyniadau treftadaeth, sefydliadau treftadaeth, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, orielau, archifau, sinemâu annibynnol, lleoliadau comedi a digwyddiadau i gwmpasu effaith barhaus y pandemig ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Medi 2021.

Bydd y gronfa ar agor i geisiadau yn yr wythnos sy'n dechrau 6 Ebrill 2021 ac yn cau ar 20 Ebrill 2021, ac mae gwiriwr cymhwysedd bellach yn fyw, ewch i:.

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/culturep2/cy

Bydd gwybodaeth am y cymorth pellach ar gyfer gweithwyr llawrydd ar gael yn y dyfodol agos.

## £1.3m i sector bwyd môr Cymru i helpu i ddelio ag effeithiau Brexit a Covid

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio cynllun newydd gwerth £1.3m i helpu sector pysgota a dyframaethu Cymru mewn ymateb i effaith gadael yr UE a phandemig Covid-19. Bydd Cynllun Cydnerthedd newydd Sector Bwyd Môr Cymru yn cefnogi busnesau bwyd môr drwy ddwy elfen. Bydd rhan gyntaf y cynllun yn gweld grant untro wedi'i dargedu ar gael i fusnesau pysgota cymwys sy'n berchen ar longau yng Nghymru, gyda'r grant sy'n cyfateb i gostau llongau am dri mis, wedi'i gapio ar £10,000. Bydd yr ail ran yn gweld cymorth yn cael ei roi i fusnesau dyframaethu, gan gynnwys y rhai sy'n masnachu mewn molysgiaid dwygragenaidd byw. Mae'r cynllun ar agor ar gyfer ceisiadau, ac yn cau ar 31 Mawrth 2021. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://llyw.cymru/13m-i-sector-bwyd-mor-cymru-i-helpu-i-ddelio-ag-effeithiau-brexit-covid

Mae manylion am sut i ymgeisio yma:

https://llyw.cymru/sector-dyframaethu-cymru-cynllun-cadernid-bwyd-mor-gan-defnyddio-rpw-ar-lein-i-wneud-cais

## Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig (Bwyd) bellach ar agor

Mae Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig (Bwyd) yn talu costau buddsoddiadau cyfalaf ac yn cefnogi prosiectau sy'n cynnig manteision clir a mesuradwy i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae'r cynllun yn agored i broseswyr a gweithgynhyrchwyr bwyd a diod bach micro a newydd ledled Cymru. Uchafswm cyfradd y grant ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw 40% o gyfanswm y costau cymwys. Uchafswm trothwy'r grant fesul ymgymeriad ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw £150,000, a'r lleiafswm yw £5,000
Mae'r canllawiau a meini prawf ar gyfer y cynllun ar gael yn:

https://llyw.cymru/cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-gwledig-bwyd-canllawiau

# Darpariaeth Cartrefi Modur – Arolwg meysydd gwersylla Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnal arolwg o berchnogion meysydd gwersylla er mwyn deall yr hyn maent yn ei wybod a'u barn am 'wersylla neu barcio gwyllt' (pobl yn parcio a chysgu yn eu cerbyd mewn meysydd parcio, coedwig, cilfan ffordd, traeth ayyb.). Mae 'gwersylla neu barcio gwyllt' cartrefi modur (motorhomes / campervans) bellach yn bwnc trafod yng Ngwynedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig mewn rhai ardaloedd lle mae'r cymunedau lleol a'r amgylchedd yn cael ei effeithio.

Bydd y wybodaeth a gesglir yn cynorthwyo y rheolaeth o 'wersylla neu barcio gwyllt', ac yn diwallu anghenion ein cymunedau a'n busnesau lleol, a pherchnogion cerbydau hamdden. Bydd yr arolwg ond yn cymryd ychydig funudau i'w gwblhau, a gofynir i berchnogion meysydd carafán a gwersylla gymryd rhan. (Mae arolwg o berchnogion cartrefi modur hefyd yn cael ei gynnal). I gymryd rhan, ewch i:

https://arolwg.gwynedd.llyw.cymru/index.php/891977?lang=cy

# Hysbysfwrdd Swyddi Busnes@LLM

Mae Grwp Llandrillo Menai yn cynnal tudalen ar eu gwefan sy'n cynnwys gwybodaeth am swyddi gwag lleol, wedi ei hanelu at eu myfyrwyr, neu yn wir unrhyw un arall sy'n chwilio am swydd. Mae'r hysbysfwrdd hwn yn dangos swyddi yn y rhanbarth a allai gael eu hystyried yn berthnasol i bobl ifanc. Gall cyflogwyr gysylltu â nhw i hysbysebu eu swyddi gwag trwy anfon e-bost at employerjobs@gllm.ac.uk, neu ewch i:

http://bit.ly/3lBDDAt

# Hyrwyddwch eich busnes i 6,000+ o weithwyr Cyngor Gwynedd

Mae dros 200 o fusnesau yn barod yn hyrwyddo eu hunain i 6,000+ o weithwyr Cyngor Gwynedd trwy Gynllun Hybu Busnesau Lleol y Cyngor. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Meinir Griffiths:

Ffôn: 01286 679103 neu 07920331962

E-bost: MeinirGriffiths@gwynedd.llyw.cymru

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru